




YNNI CYMUNEDOL

CYFLWR Y SECTOR

2025

CYFLWYNIAD

Mae tîm Cyflwr y Sector yn falch iawn o rannu canfyddiadau ac ystadegau eleni gyda chi. Mae'r adroddiad diweddaraf hwn yn tynnu sylw at effaith ynni cymunedol ledled y DU gan ganolbwyntio ar y gweithgareddau y mae'r sector yn eu cefnogi.

Mae Cyflwr y Sector yn 2024 yn gymharol iach. Yn gyfan gwbl ledled y DU, bu cynnydd cymedrol ers adroddiad y llynedd yn:

- ➔ cynhyrchu ynni adnewyddadwy sy'n eiddo i'r gymuned
- ➔ nifer y sefydliadau ynni cymunedol
- ➔ cyllid datblygu wedi'i sicrhau
- ➔ nifer y sefydliadau sy'n gweithio ar drafnidiaeth carbon isel ac effeithlonrwydd ynni a gwres

Yn ogystal â chynnydd mwy sylweddol yn:

- ➔ trosiant sefydliadol ynni cymunedol (cynnydd o 58%)
- ➔ gwerth cronfeydd budd cymunedol o ynni sy'n eiddo i'r gymuned (cynnydd o 138%)

Rydym ni yn Community Energy England, Community Energy Scotland ac Ynni Cymunedol Cymru hefyd yn cynnwys ein hargymhellion ar sut i ehangu apêl a chyrhaeddiad y sector.

Daeth y Gronfa Ynni Cymunedol Gwledig i ben heb unrhyw beth gymryd ei le ym mis Mawrth 2022 felly dioddefodd 2024 o'r amseroedd darbodus a ddilynodd. Yn 2024 dechreuodd Cronfa Ynni Cymunedol (CEF) £10 m y llywodraeth Geidwadol fynd rhagddi ac mae wedi galluogi llawer o brosiectau yn Lloegr i gael eu cychwyn. Fodd bynnag, ychydig iawn, os o gwbl, o brosiectau a ddatblygwyd gyda'r gronfa honno fydd yn ymddangos heblaw yn adran piblinell yr adroddiad hwn.

Er mwyn cyrraedd targedau uchelgeisiol y llywodraeth ar gyfer 2030, mae angen i'r sector ddyblu mewn maint bob blwyddyn fel y gwnaeth rhwng 2014 a 2017. Os bydd y llywodraeth yn dilyn cyllid datblygu digonol (nad sy'n digwydd ar hyn o bryd yn 2025) yna dylai'r cynnydd hwn mewn gweithgarwch fod yn weladwy mewn adroddiadau dilynol Cyflwr y Sector. Ond mae pob mis o oedi yn gwneud y mynydd sydd i'w ddringo'n fwy serth.

Mae'r ddwy flynedd nesaf yn debygol o fod yn gyfnod hanfodol i'r sector ynni cymunedol. Mae sefydlu Great British Energy a'i Gynllun Pŵer Lleol hir-ddisgwyliedig yn cyflwyno cyfle enfawr ar gyfer twf ac arallgyfeirio parhaus, fodd bynnag, tra'n bod yn aros am fanylion y cynllun, cawn ein calonogi gan yr ymrwymiad sylfaenol i ariannu a chefnogi prosiectau ynni a arweinir gan y gymuned a sicrhau bod gan gymunedau ran uniongyrchol mewn prosiectau ynni lleol.

Dyma lwyddiant parhaus ynni cymunedol yn y DU!

Ynghylch yr ymchwil

Mae ymchwil Cyflwr y Sector Ynni Cymunedol wedi cynnig golwg manwl ar sector ynni cymunedol y DU ers 2017 ac mae'n gydweithrediad rhwng Community Energy England, Community Energy Scotland ac Ynni Cymunedol Cymru.

Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar y cynnydd a wnaed yn 2024 i roi dealltwriaeth i ddarllenwyr o raddfa ac effaith y sector ledled y DU, nodi meysydd twf a chyfleoedd sy'n seiliedig ar dystiolaeth, a'n galluogi i eirioli'n fwy effeithiol dros ein haelodau.

Cynhaliwyd casglu, dadansoddi ac adrodd data rhwng Chwefror a Gorffennaf 2025, ac rydym yn ddyledus i'r sefydliadau a gymerodd yr amser i gwblhau'r arolwg, ac mae eu hymatebion yn sail i'r adroddiad hwn. Mae'r set ddata yn cael ei ategu gan ddata a gasglwyd gan sefydliadau eraill trwy arolygon blaenorol Cyflwr y Sector ac ymchwil desg.

Noddwyd Cyflwr y Sector yn y DU 2025 gan SP Energy Networks ac mae wedi'i ddatblygu ochr yn ochr ag adroddiadau ymchwil ynni cymunedol rhanbarthol ychwanegol ar ran SP Energy Networks, Electricity North West a National Grid Electricity Distribution. Mae'r safbwyntiau yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar ganfyddiadau'r arolwg Cyflwr y Sector ac adborth gan aelodau o Community Energy England, Ynni Cymunedol Cymru a Community Energy Scotland, ac nid ydynt o reidrwydd yn cynrychioli barn noddwyr yr adroddiad.

Cynhyrchwyd gan



Noddir gan




Rhagair y noddwyr


Mae SP Energy Networks yn falch iawn o noddi Ynni Cymunedol: Adroddiad Cyflwr y Sector am y bedwaredd flwyddyn yn olynol. Dros y cyfnod hwn, mae'r sector ynni cymunedol wedi dangos cynnydd, arloesedd a gwytnwch rhyfeddol – wedi'i adlewyrchu'n glir yng nghanfyddiadau'r adroddiad hwn.

Mae cymunedau ledled y DU wedi parhau i yrru ymlaen mentrau ynni adnewyddadwy lleol, er gwaethaf wynebu pwysau economaidd-gymdeithasol cynyddol a thynnu'n ôl sawl mecanwaith cymorth allweddol. O PV solar a gwynt i gynlluniau hydro, mae'r projectau cymunedol hyn nid yn unig yn cynhyrchu trydan glân ond hefyd yn darparu manteision diriaethol i'r bobl maen nhw'n eu gwasanaethu.

Fel perchennog a gweithredwr rhwydwaith, mae SP Energy Networks yn chwarae rhan ganolog yn seilwaith ynni'r DU - gan alluogi llif pŵer glân, adnewyddadwy o'r cynhyrchu i gartrefi a busnesau ledled y wlad. Mae'r rhwydweithiau hyn yn sylfaenol i gyflawni nodau hinsawdd y DU. Mae cyrraedd y targedau hyn yn gofyn am newid ar y cyd yn y ffordd yr ydym yn meddwl am ac yn defnyddio trydan – fel unigolion a chymunedau.



Trwy gefnogi ynni cymunedol, rydym yn grymuso grwpiau lleol i gymryd rolau gweithredol yn eu dyfodol ynni. Mae hyn yn cynnwys popeth o gynhyrchu pŵer gwyrdd yn lleol, gwella effeithlonrwydd ynni, datblygu atebion trafnidiaeth carbon isel, i ehangu mynediad at wefru EV. Mae'r mentrau hyn nid yn unig yn hyrwyddo'r trawsnewidiad i sero net, ond hefyd yn darparu gwerth cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol parhaol lle mae mwyaf bwysig – yn ein cymunedau.




Ynni cymunedol yn y DU 2024

CYNHYRCHIANT YNNI ADNEWYDDADWY

CYFANSWM CAPASITI YNNI ADNEWYDDADWY

411 MW
o gapasiti




CYFANSWM CYNHYRCHIANT TRYDAN ADNEWYDDADWY

575
GWh

yn 2024

sy'n cyfateb i bweru


212,963



o aelwydydd
domestig

YNNI ADNEWYDDADWY WEDI'I ATAL

379 MW o gapasiti
wedi'i atal




SEFYDLIADAU A PHOBL

SEFYDLIADAU YNNI CYMUNEDOL YN Y SECTOR

614 sefydliad

↑ +24% ers 2021




STRWYTHUR Y SEFYDLIADAU

212,960 o aelodau

↑ +46% ers 2021

GWEITHLU



↑ +41% ers 2021



+88

o swyddi
newydd yn
2024


CYLLID

CYFANSWM TROSIAANT SEFYDLIADOL

trosiant **£68.5 m**

CYFANSWM BUDDSODDIAD WEDI'I SICRHAU

£24 miliwn o fuddsoddiad
wedi'i sicrhau



CYFRANIAD ARIANNOL I'R ECONOMI LLEOL

£24.5 miliwn wedi
ei gyfrannu



i economïau lleol o wariant sefydliadol a
chronfeydd budd cymunedol

EFFEITHLONRWYDD YNNI

£1.86 miliwn
arbedion biliau



Effaith Ynni Cymunedol


YMGYSYLLTU AC EFFAITH CYMUNEDOL LLEOL

Yn 2024 parhaodd y sector ynni cymunedol i gael effeithiau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd uniongyrchol ac anuniongyrchol mawr ar gymunedau lleol:

Ymgysylltu â

61,370

o unigolion/cymunedau trwy fentrau effeithlonrwydd ynni



Codi buddsoddiad o

£24 miliwn

ar gyfer prosiectau newydd ledled y DU

sy'n helpu i arbed amcangyfrif o

£1.86 miliwn

o filiau ynni pobl




TWF

22 MW

o gapasiti trydan adnewyddadwy newydd wedi'i osod

31

o sefydliadau ynni cymunedol newydd wedi'u nodi




88 o swyddi newydd cyfwerth ag amser llawn wedi'u creu

EFFAITH AMGYLCHEDDOL

o leiaf

120,000

tunnell o garbon wedi'i arbed



BUDD CYMUNEDOL

Mae

140

o sefydliadau

yn rheoli cronfa budd cymunedol ac yn dosbarthu


£3.97 miliwn

o'r rhain i alluogi cymunedau i ddarparu gwasanaethau lleol pwysig, adfer adeiladau cymunedol, adeiladu asedau newydd a darparu cyfleoedd hyfforddi a chyflogaeth

Cynhyrchwyd digon o ynni cymunedol i bweru'r hyn sy'n cyfateb i

212,960

o aelwydydd yn y DU



a rhoi hwb i economïau lleol trwy wario

£20.5 miliwn

o incwm sefydliadol yn lleol

Gweithgareddau Ynni Cymunedol

GWEITHGAREDDAU CYNHYRCHU YNNI ADNEWYDDADWY

411 MW

Cyfanswm capasiti ynni adnewyddadwy


266 MW
PV solar

132 MW
gwynt

13 MW
hydro

0.25 MW
treulio anaerobig

EFFEITHLONRWYDD YNNI



151
o sefydliadau

sy'n darparu mesurau
effeithlonrwydd ynni a
lliniaru tlogi tanwydd i bobl
leol a busnesau sy'n
cefnogi cymunedau
i frwydro yn erbyn tlogi
tanwydd



o'r rhain mae yna

77
o sefydliadau

sy'n rhoi cyngor ac arweiniad
ynglŷn â'r system ynni a
lleihau'r defnydd o ynni

125
o sefydliadau

sy'n darparu gwasanaethau ôl-ffitio

GWRES CARBON ISEL

4.7 MW

o gapasiti cynhyrchu gwres
sy'n eiddo i'r gymuned

Gweithredu rhwydweithiau
gwres ar raddfa gymunedol
a systemau gwres
adnewyddadwy annibynnol
fel pypmiau gwres
ffynhonnell aer a daear, a
datblygu modelau
gwres-fel-gwasanaeth

TRAFNIDIAETH CARBON ISEL A THEITHIO LLESOL

Gosod pwyntiau gwefru cerbydau trydan (EV), gweithredu cynlluniau e-feiciau a mathau eraill o deithio llesol, darparu rhannu ceir, addysg EV a gwelliannau seilwaith

233 o e-feiciau




401 pwynt
gwefrio



113 o brosiectau

107 o gerbydau trydan



GWASANAETHAU STORIO A HYBLYGRWYDD YNNI


Darparu gwasanaethau 'hyblygrwydd' i'r grid trydan trwy gynyddu neu leihau'r galw pan fo angen, a gweithio ar ddulliau arloesol i ddefnyddio technoleg ac ymgysylltu i wella effeithlonrwydd y system ynni

36 o brosiectau
batri

4,500 kWh
o gapasiti storio batri

15 sefydliad

sy'n darparu gwasanaethau hyblygrwydd i'r grid trydan



Cyrhaeddiad, ymgysylltu a phartneriaethau

PARTNERIAETH A CHYDWEITHREDU

Mae'r sector yn parhau i fanteisio ar adeiladu partneriaethau cryf a gweithio ar y cyd â sefydliadau ynni cymunedol eraill, awdurdodau lleol, gweithredwyr rhwydwaith, cwmnïau ynni masnachol a darparwyr gwasanaethau eraill:

25 sefydliad

sy'n ymwneud â phrosiectau cynhyrchu perchnogaeth a rennir ar hyn o bryd


70 o sefydliadau

yn cynllunio prosiectau perchnogaeth a rennir

Sefydliadau cymunedol mewn partneriaeth ag amrywiaeth o wahanol sectorau

Roedd

455 o bartneriaethau gweithredol in 2024




CYLLID

Buddsoddodd pobl leol

£4.5 miliwn

mewn prosiectau ynni drwy gynigion cyfranddaliadau cymunedol



CANLYNIADAU CYMUNEDOL

Mae sefydliadau cymunedol mewn sefyllfa dda i ymgysylltu â phobl leol yn y system ynni



adeiladu perchnogaeth leol

sy'n hyrwyddo perchnogaeth a chyfraddau uwch o gyfranogiad mewn cynlluniau lleol



cefnogi dewisiadau carbon isel

eu hannog i fabwysiadu technolegau carbon isel



cyd-ddylunio atebion ynni

gan weithio gyda nhw i gyd-ddylunio atebion ynni ymarferol a pherthnasol

CYRHAEDDIAD A MENTORA

Mae


74 o sefydliadau ynni cymunedol

wedi darparu mentora i sefydliadau ynni cymunedol eraill

Adroddodd y sector ei fod wedi ymgysylltu â

29,000

ar restrau postio



84,553

o aelodau



85,890

o unigolion a sefydliadau



Cyd-destun polisi

Mae'r sector ynni cymunedol mewn sefyllfa unigryw i fynd i'r afael ag argyfyngau gorgyffwrdd yr argyfwng hinsawdd, tlodi tanwydd a chyllid cyhoeddus cyfyngedig. Mae perchnogaeth gymunedol o gynhyrchu ynni yn trawsnewid cymunedau o fod yn grant-ddibynnol i allu cynhyrchu incwm. Mae hyn yn galluogi llawer o gymunedau i ddiwallu eu hanghenion eu hunain yn rhagweithiol lle nad yw'r ddarpariaeth gyhoeddus yn ddigonol, ar draws tai, trafnidiaeth, bwyd, hamdden a gweithgareddau cymunedol. Mae pob sefydliad ynni cymunedol yn ymgysylltu â'r cyhoedd yn y trawsnewidiad ynni ac yn hwyluso'r broses o fanteisio ar dechnolegau ac ymddygiadau newydd sy'n hanfodol i gyrraedd targedau Pŵer Glân 2030 a sero net.

Er mwyn cyrraedd targed uchelgeisiol Llywodraeth y DU o 8 GW o ynni cymunedol a lleol erbyn 2030 (a thargedau Llywodraeth yr Alban a Llywodraeth Cymru o 2 GW ac 1.5 GW yn y drefn honno), rhaid newid cam mewn cymorth a newidiadau polisi i dyfu'r biblinell o brosiectau ynni cymunedol yn sylweddol.

Bydd y buddsoddiad cychwynnol hwn mewn hunan-ddibyniaeth ac entrepreneuriaeth gymunedol yn arwain at enillion mawr wrth ysgogi buddsoddiad preifat mewn prosiectau sy'n darparu ynni lleol, ymgysylltu cymunedol mewn arbed carbon a budd cymdeithasol a chymunedol hirdymor.

Er bod Cyflwr y Sector yn 2024 yn edrych yn gymharol iach, mae rhai ffigurau allweddol yn arwydd o ddirywiad posibl:

CAPASITI CYNHYRCHU

Mae'r swm o gapasiti cynhyrchu yn y biblinell prosiect wedi **gostwng mwy na 50%**



BUDDSODDIAD PIBLINELL WEDI'I GODI

Mae lefel y buddsoddiad i'w godi ar gyfer prosiectau piblinell hefyd wedi **gostwng dwy ran o dair**




CAPASITI CYNHYRCHU WEDI'I ATAL

Mae capasiti cynhyrchu wedi'i atal wedi cynyddu'n sylweddol



SEFYDLIADAU YNNI ADNEWYDDADWY

Mae nifer y sefydliadau sy'n gweithio'n uniongyrchol ar gynhyrchu ynni adnewyddadwy wedi **gostwng**



Rydym yn gweld dwy her fawr:

1 Galluogi sefydliadau newydd a bach i ddatblygu

Mae'r mwyafrif helaeth o'r genhedlaeth newydd wedi cael ei ddatblygu gan sefydliadau sefydledig sydd ag arbenigedd sylweddol. Mae'r amgylchedd polisi yn ei gwneud hi'n llawer anoddach i sefydliadau ynni cymunedol llai, newydd gyflawni prosiectau ac yn risg o dagu twf ac amrywiaeth y sector trwy ddibynnu'n rhy drwm ar nifer fach o chwaraewyr. Mae hefyd yn golygu y bydd y sector yn cael trafferth sefydlu ei hun mewn

ardaloedd daearyddol lle nad oes ganddo bresenoldeb cryf ar hyn o bryd.

Mae angen i grwpiau ynni cymunedol newydd sy'n dod i'r amlwg cael mynediad at gyfleoedd cyllido aml-flwyddyn, yn enwedig cyllid datblygu, fel y gallant gadw a llogi staff, datblygu sgiliau a gwybodaeth ac ymgymryd â phrosiectau mwy uchelgeisiol, tymor hirach. Byddai cyllid ar gyfer rhagarweinioldeb, meithrin gallu a chostau craidd yn arbennig o effeithiol, gan alluogi sefydliadau sy'n dibynnu ar wirfoddolwyr i broffesiynoleiddio.

2 Rhwystrau polisi sy'n cyfyngu ar gyfleoedd ar gyfer twf



Nid yw rhwystrau i gyflawni prosiectau cynhyrchu ynni cymunedol wedi'u datrys, gan atal prosiectau (yn enwedig yn Lloegr) ac arwain at lai o brosiectau newydd (yn enwedig yng Nghymru a'r Alban).

Mae'r rhwystrau yn cynnwys yr aros hir a'r gost uchel ar gyfer cysylltiad grid, diffyg 'llwybrau i'r farchnad' a llwybrau

i gyflenwad lleol, a diffyg hyder, cefnogaeth neu gytundeb gan awdurdodau lleol, cyrff cyhoeddus a thirfeddianwyr eraill.

Dylai'r llywodraeth gydnabod y gwerth cymdeithasol a chymunedol sylweddol gwell a ddarperir gan brosiectau ynni cymunedol na chan grantiau cyfalaf y llywodraeth i roi solar ar ysgolion ac ysbytai, er enghraifft. Dylai weithio i gael gwared ar rwystrau a buddsoddi nawr i alluogi'r sector i dyfu a lledaenu'n gyflym.

➤ Gallai methu â chefnogi sefydliadau a phrosiectau newydd, a chael gwared ar rwystrau ar gyfer prosiectau sydd eisoes ar y gweill, achosi cwymp yn nhwf y sector y byddai'n anodd iawn i ddod allan ohono er mwyn cyrraedd y targed 8 GW, a chyflawni potensial llawn a rôl hanfodol ynni cymunedol wrth gyflawni sero net.



1

Rhaid i'r Cynllun Pŵer Lleol a'r Cynllun Cartrefi Cynnes gynnwys mwy o gyllid ar gyfer y sector ynni cymunedol, yn enwedig ar gyfer datblygu a meithrin gallu, er mwyn galluogi'r sector i dyfu. Dylai hyn gynnwys cyllid ar gyfer datrysiadau gwresogi cymunedol ac ôl-ffitio, a dylai pob cynnydd mewn cyllid gael ei adlewyrchu'n deg ledled y DU. Dylai unrhyw gyllid o'r cynlluniau hyn i awdurdodau lleol fod yn amodol ar gydweithrediad gyda sefydliadau ynni cymunedol.

2

Cyflwyno mecanwaith i ddarparu isafswm pris llawr ar gyfer gwerthiannau ynni cymunedol. Byddai hyn yn darparu diogelwch incwm hirdymor ar gyfer prosiectau ynni cymunedol, er mwyn galluogi cymunedau i adeiladu achos busnes a chael mynediad at gyllid. Gallai'r mecanwaith fod yn warant allforio ynni cymunedol neu Gontract ar gyfer Gwahaniaeth ('CfD') symlach ar gyfer ynni cymunedol.

3

Lleihau rhwystrau i brosiectau ynni cymunedol sy'n cysylltu â'r grid. Dynodi prosiectau ynni cymunedol fel 'angenrheidiol' yn Methodoleg Dylunio Prosiectau NESO, er mwyn rhoi blaenoriaeth uwch iddynt yn y ciw cysylltiad grid.

4

Galluogi cyflenwad lleol. Mae marchnadoedd ynni lleol yn golygu cyfraddau gwell posibl ar gyfer generaduron ynni a biliau rhatach i ddefnyddwyr ynni, gan arwain at newid dwfn i bobl sy'n byw mewn tldi tanwydd. Dylid cyfateb yr alwad am a chynhyrchiant ynni gymaint a phosibl drwy gymell marchnad ynni lleol, a chaniatáu generaduron ar raddfa fach i ddatblygu modelau busnes hyfyw, a lleihau'r angen am uwchraddio seilwaith ar raddfa fawr.

5

Newid fframweithiau caffael cenedlaethol i alluogi cyrff cyhoeddus i brynu o leiaf rhywfaint o'u trydan gan sefydliadau ynni cymunedol lleol.




Argymhellion

i ddatgloi potensial y sector ynni cymunedol...

7

Lleihau rhwystrau i ail-bweru prosiectau ynni cymunedol trwy weithio ar draws Llywodraethau, adrannau ac asiantaethau i ddod o hyd i atebion pwrpasol, er mwyn osgoi colli'r ynni cymunedol sy'n bodoli ar hyn o bryd.




8

Caniatáu i Lywodraethau datganoledig flaenoriaethu ynni sy'n eiddo i'r gymuned trwy eu systemau cynllunio a chaniatâd.

9

Ei gwneud yn ofynnol i ddatblygwyr ynni glân ddarparu cronfeydd budd cymunedol, cynnig cyd-berchnogaeth a thalu i mewn i Gronfa Cyfoeth Cymunedol ar gyfer y genedl lle mae'r prosiect wedi'i leoli. Byddai hyn yn darparu ffynhonnell cyllid i sefydliadau ynni cymunedol sy'n dymuno datblygu neu ail-bweru eu hynni adnewyddadwy eu hunain neu ddatblygu cyd-berchnogaeth.




10

Cynyddu cefnogaeth a mynediad at gyllid ar gyfer perchnogaeth gymunedol: lle mae sefydliadau cymunedol yn berchen ar gyfranddaliadau mewn datblygiadau ynni preifat, mae ganddynt hawliau pleidleisio, ac ail-fuddsoddi enillion yn y gymuned. Dylai GB Energy neu Lywodraeth y DU sicrhau benthyciadau y mae cymunedau yn eu benthyca i gymryd cyfran perchnogaeth a rennir. Gallai GB Energy brynu'r gyfran a fwriadwyd ar gyfer y gymuned i ddechrau a'i drawsnewid yn fenthyciad fforddiadwy unwaith y bydd cytundebau wedi'u llofnodi.

6

Rhoi blaenoriaeth i sefydliadau cymunedol fynediad i dir cyhoeddus a thoeau a phrydlesi ar gyfer ynni adnewyddadwy. Cefnogi sefydliadau ynni cymunedol i gymryd prydlesi ar gyfer datblygiadau presennol ar y pwynt o ail-bweru trwy Drosglwyddo Asedau Cymunedol.



Amdanom

Rydym yn gwahodd pob sefydliad sy'n gweithio ym maes ynni cymunedol, neu sy'n cefnogi ynni cymunedol, i ymuno â ni, er mwyn cryfhau ein llais cyfunol a'n galluogi i'ch cynrychioli yn ein gwaith i ddatblygu a chefnogi'r sector. Mae manylion ynglŷn â sut i ymuno â ni i'w gweld isod.



Community Energy Scotland

Mae Ynni Cymunedol yr Alban yn arbenigwr ynni cymunedol sydd wedi ymrwymo i ddarparu cymorth annibynnol a pharhaus i gymunedau ledled yr Alban i'w galluogi i ddatblygu eu prosiectau ynni eu hunain.

Mae ein haelodaeth yn ddi-dâl i holl sefydliadau ynni cymunedol yr Alban a chefnogwyr unigol, ac mae'n darparu cyfleoedd i sefydliadau ymgynghori â'n tîm, rhwydweithio â sefydliadau eraill sy'n aelodau, a derbyn gwybodaeth sy'n ymwneud ag ynni cymunedol yn rheolaidd.

Cysylltwch â ni am ragor o wybodaeth:

- ☎ 07920 182308
- ✉ info@communityenergy.scot
- 🦋 [@cescotland.bsky.social](https://twitter.com/cescotland.bsky.social)
- 🖱 www.communityenergy.scot/membership



Community Energy England

Ynni Cymunedol Lloegr yw llais y sector ynni cymunedol yn Lloegr, yn helpu i greu tirwedd polisi gefnogol ar gyfer ynni cymunedol. Rydym hefyd yn helpu sefydliadau ynni cymunedol gweithredol i gysylltu, cydweithredu, rhannu arbenigedd a goresgyn rhwystrau, a hwyluso cydweithredu a buddsoddiadau newydd yn y sector.

Ymunwch â ni i ddangos eich cefnogaeth i fuddiannau ehangach y sector a'n gwaith er mwyn creu'r amodau lle gall ynni cymunedol ffynnu a thyfu.

Cysylltwch â ni am ragor o wybodaeth:

- ☎ 033 3303 4126
- ✉ info@communityenergyengland.org
- 🦋 [@commenergyengland.bsky.social](https://twitter.com/commenergyengland.bsky.social)
- 🖱 www.communityenergyengland.org/pages/membership



Ynni Cymunedol Cymru Community Energy Wales

Mae Ynni Cymunedol Cymru yn sefydliad nid-er-elw sy'n darparu cefnogaeth a llais i fudiadau cymunedol sy'n gweithio ar brosiectau ynni cymunedol yng Nghymru. Rydym eisiau helpu i greu amgylchedd yng Nghymru lle mae prosiectau ynni cymunedol yn gallu llewyrchu, a chymunedau'n cael eu dyrchafu.

Ein gweledigaeth: dylai pobl fod wrth galon y system ynni.

Ein cenhedaeth: I gefnogi a phrysuro'r newid tuag at system ynni deg, carbon isel, sydd wedi'i harwain gan y gymuned.

Cysylltwch â ni am ragor o wybodaeth:

- ☎ 02920 190260
- ✉ info@communityenergy.wales
- 🦋 [@ynnicymunedol.bsky.social](https://twitter.com/ynnicymunedol.bsky.social)
- 🖱 ynnicymunedol.cymru/register